**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET - PARC COFFA YNYSANGHARAD**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad a gynhaliwyd Dydd Iau, 8 Mawrth 2018 am 10.30 am ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet - Parc Coffa Ynysangharad Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd R Bevan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Hopkins Y Cynghorydd M Norris

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol
Ms L Davies, Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol

**8 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber ac A Crimmings.

**9 Datgan buddiant**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**10 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau gadarnhau'r cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Cabinet Parc Coffa Ynysangharad a gafodd ei gynnal ar 21 Tachwedd 2017, yn rhai cywir.

**11 Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Arfaethedig (Sylweddau Meddwol) 2018.**

Cyflwynodd Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned ei hadroddiad i'r Aelodau a oedd yn ceisio cael barn yr Aelodau ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) arfaethedig. Dywedodd y Swyddog mai'r bwriad oedd parhau â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol i ddynodi'r Fwrdeistref Sirol gyfan fel Parth Yfed a Reolir ac ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i ddynodi Canol Tref Aberdâr a Chanol Tref Pontypridd (gan gynnwys Parc Coffa Ynysangharad) fel Parthau Gwahardd, gan wahardd defnyddio sylweddau meddwol mewn mannau cyhoeddus.

Dywedodd wrth yr Aelodau fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig wedi dechrau ar 15 Ionawr a byddai'n dod i ben ar 12 Mawrth. Siaradodd y swyddog am yr ymarfer ymgysylltu eang a gafodd ei wneud i geisio barn y cyhoedd ar y cynnig.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned am yr adroddiad ac agorodd yr eitem i gwestiynau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau am drwyddedu alcohol ar gyfer 'Lido Ponty' a sut byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw achlysuron yn y parc neu'r Lido yn y dyfodol. Dywedodd y swyddog nad oedd gan y Lido drwydded ond gallai gael trwydded o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro os oes angen un ar gyfer achlysur yn y dyfodol.

Trafododd yr Aelodau sancsiynau Hysbysiad Cosb Benodedig a gofynnwyd a oedd modd defnyddio sancsiynau 'Amodau cadarnhaol' yn lle Hysbysiad Cosb Benodedig. Eglurodd Pennaeth Bennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned y byddai'r sancsiynau cadarnhaol yn cael eu rhoi ar gyfer ymddygiad annerbyniol ailadroddus neu barhaus ac ni fydden nhw'n cael eu defnyddio yn y lle cyntaf. Ychwanegodd y swyddog y byddai modd edrych ar bolisi gorfodi cymesur fel rhan o'r cynnig. Cafodd ymholiad pellach ei wneud mewn perthynas â'r sancsiynau ar gyfer troseddwyr ifainc a dywedodd y swyddog y dylai'r heddlu fod yn bennaf gyfrifol am atafaelu unrhyw alcohol gan unrhyw un sydd dan oed. Hefyd, cafodd y potensial o ymgysylltu â rhieni drwy lwybr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ei drafod ac awgrymodd un Aelod gyrsiau REability fel mesur cadarnhaol. Soniodd y Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned am y gwaith sy'n cael ei ddatblygu gyda'r Bartneriaeth Alcohol Cymunedol ar hyn o bryd, gan ailgyfeirio pobl ifainc oddi ar y strydoedd ac i weithgareddau.

Soniodd y Cadeirydd am rôl yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth mewn perthynas â throseddwyr ifanc a'r posibilrwydd o'r ymyriadau sydd ar gael. Gofynnodd hefyd i'r swyddog mewn perthynas â rôl safleoedd trwyddedig o fewn Canol Trefi mewn perthynas â'r cynnig a'r bartneriaeth yn gweithio gyda'r gwasanaeth ymgysylltu ieuenctid, y gwasanaeth diogelwch y gymuned a'r heddlu. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at weithio gyda'r gwasanaethau diwylliannol a hamdden i ategu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn yr ardal yma. Awgrymodd hefyd ddefnyddio eiddo gwag ar gyfer gwasanaethau dros dro, fel dewis arall i bobl ifainc.

Cadarnhaodd y swyddog y gallai swyddogion gorfodi'r awdurdod hefyd roi dirwyon ac nid oedd yn gyfrifoldeb i'r heddlu yn unig. Aeth yn ei blaen i sôn am fonitro'r cynllun yn y dyfodol trwy gasglu data cadarn gan yr heddlu.

Soniodd yr Aelodau am rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r angen i ymgysylltu gyda'i holl Aelodau gan gyfeirio at Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Bydd angen cydweithio â'r Heddlu hefyd er mwyn cael canlyniadau cadarnhaol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben mewn perthynas â'r penderfyniad fydd yn cael ei wneud.

**PENDERFYNODD** Aelodau:

1. Bod barn a sylwadau'r ymddiriedolwyr yn cael eu datblygu fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig i barhau â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol i ddynodi'r Fwrdeistref Sirol gyfan fel Parth Yfed a Reolir ac ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i ddynodi Canol Tref Aberdâr a Chanol Tref Pontypridd (gan gynnwys Parc Coffa Ynysangharad) fel Parthau Gwahardd, gan wahardd defnyddio sylweddau meddwol mewn mannau cyhoeddus.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 am**

**Y Cynghorydd R Bevan**
**Cadeirydd.**